# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 3

CYDNABOD CYRFF DYFARNU

*Cydnabod cyrff dyfarnu*

### 11 Darpariaeth bellach ynghylch cydnabyddiaeth

(1) Os yw Cymwysterau Cymru yn gwrthod cais am gydnabyddiaeth a wneir o dan y Rhan hon, rhaid iddo roi datganiad i'r corff dyfarnu o dan sylw sy'n nodi ei resymau dros wrthod y cais.

(2) Mae Atodlen 3 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cydnabyddiaeth o dan y Rhan hon, gan gynnwys—

(a) cyfnod para'r gydnabyddiaeth;

(b) yr amodau y mae'r gydnabyddiaeth i fod yn ddarostyngedig iddynt;

(c) ildio cydnabyddiaeth a thynnu cydnabyddiaeth yn ôl.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** A. 11 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 11.